N935.5.W1

# MARWNAD,

*ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR*

## BARCH. DAFYDD PARRY,

YR HWN

*A YMADAWODD A'R BYD HWN*

EBRILL 27, 1821, YN 61 OED:

WEDI BOD

## YN WEINIDOG FFYDDLON

DROS DAIR BLYNEDD A DEUGAIN.

GAN W. WILLIAMS.

YR AIL ARGRAPHIAD.

*A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen: a rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y ser byth yn dragywydd.*

Dan. 12, 3.

*Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.*

Diarheb. 10, 7

W. WILLIAMS, ARGRAPHYDD, ABERHONDDU.

# MARWNAD

# &c. &c.

1 CYMRU Cymru, bydd yn 'neffro
Nid amser yw i ddiofalhau,
Y mae Angeu'r Gelyn creulon
Trwy yr wlad a'i saethau 'n gwau,
Gan gwympo hen a chanol oedran
'N cwympo eungctid yma a thraw,
Byddwn ni gan hynny'n barod
Fe'in cwympir ninnau maes o law.

2 Mae galar trwm o fewn i Seion,
Y mae yno wylo mawr,
Angeu Brenin dychryniadau
S'yn torri pob rhyw raddau i lawr,
Fe aeth ar dro i blwyf Llanwrtyd
Ag yno cwympodd enwog was,
Yr hwn oedd ddyfal yn ei alwad
Yn pregethu 'Fengyl gras.

3 Sir Frecheiniog cefaist golled
Ag hefyd Cymru oll'r un wedd,
Un o'n Gweinidogion enwog

Colli Tad a Brawd a Chyfaill
Colli dwys Gynghorwr hy
Colli enwog Efangylwr
Pwy all draethu' n colled ni.

4 Y Parchedig DAFYDD PARRY
Fe ddaeth cennad i'w ei ol,
'Hedodd ymaith tu a chartre,
Ni ddychwela mwy yn ol,
Mae e heddyw gyda'r Dyrfa,
'N gogoneddu' r Iesu cu,
'Rhwn ai daliodd yn nyfnderoedd
Yr Iorddonen donnog ddu.

5 Fe fu'n ffyddlon was i'r Iesu
Yn pregethu' r Efengyl lan,
Trwy ddehau dir a gogledd Cymru,
Gan gynghori Fawr a Mân,
I adael heibio eu pechodau
A' mofyn Iachawdwriaeth rad,
'R hon sydd ir penna' o bechaduriaid,
Trwy rinweddau mawr y gwaed.

6 Yn Ieuangc iawn fe gadd ei alw
Gan yr Arglwydd at ei waith,
O bregethu' r Efengyl
I'r Cymru tywyll yn eu hiaith,
Tair ar bumtheg oedd ei oedran
'Nol y cyfrif gefais i,
Pan ddechreuodd ef gyhoeddi
Iachadwriaeth rad yn hy.

7 Pregethwr enwog hardd godidog
Tan arddeliad yn ei ddydd

Yn meddiannu doniau addas
I ddadguddio pethau cudd,
Yn dderbyniol yn mhob ardal,
Yn mhob man yn llanw eile,
Pwy ond hynny gaf ei weled
'N teithio Cymru fel efe.

8 Swm ei eiriau a'i bregethu
Swm ei weineidogaeth ef
Oedd bywyd a Marwolaeth Iesu
A threfn y Cyfammod hedd,
Y modd y syrthiodd natur ddynol
Trwy bechod Adda fel y dail
A'r modd mae codi rhai syrthiedig
Trwy ufudd-dod Adda'r ail.

9 Fe gyhoeddai ef yn helaeth
Rhyfedd Iachawdwriaeth rad,
Ffordd cymmodi pechaduriad
'N unig trwy rinweddau'r gwaed,
Fe ddywedai am y mychiau
'R hwn fu farw un prydnhawn,
Tu ag at ryddhau rhai euog,
A rhoi'r gyfraith berffaith iawn.

10 Fe fu'n foddion yn llaw'r Arglwydd
I godi llawer marw'n fyw,
I wneud mudiaid i lefaru,
Pethau mawrion am drefn Duw
Rhai byddariaid ddaeth i glywed,
Trwy ei weinidogaeth ef
Ag hefyd deillion ddaeth i weled
Rhyfeddodau gras y nef.

11 Ugeiniau sydd o fewn i Gymru,
All dystio hyn mewn llawer man,
Mae trwy ei Nerthol Weinidogaeth,
Cawsant Iesu yn eu rhan,
Eraill sydd o'r rhai a Ddeffrodd,
Gwedi uno a'r teulu hardd,
'N ddisglair berlau y'nghoron Iesu,
'Rhwn fu'n chwysu yn yr Ardd.

12 Er ei wendid er ei lesgedd,
Er ei holl gystuddiau i gyd,
'Roedd e megis yn adfywio,
Pan bregethai Grist ir byd,
Mewn Cwrddau Misol a Chwarterol,
Pan yn pregethu bydde fe,
Trwy ei fwyn a'i bur athrawiaeth,
Fe ddiferai gwlith y ne.

13 Tair a deugain o flynyddau
Am hyn y mae yn haeddu clod,
Bu'n pregethu yr Efengyl,
Gan gadw' i lygaid at y nod,
Nol iddo maflyd yn yr Aradr,
Ni edrychodd mwy yn ol,
Syllodd ar ogoniant Iesu,
Nes mynd adre i'w ei gol.

14 Fe ddioddefodd gystudd chwerw,
Pan oedd ymma ar y llawr,
Ond y mae ef gwedi diange,
Maes o Wlad y cystydd mawr,
Mae e Heddyw gyda'r dyrfa,
Yn Molannu' r tri yn un,

Am y Drefn ddoeth Amfeidrol,
Drefnodd Duw at gadw Dyn.

15 Nid yw nawr mewn poen na gofid,
Nid yw nawr mewn cystydd chwaith
Ond y mae uwch pob gofidiau
Gwedi cyraedd pen ei Daith,
Gyda'r dyrfa ddirifedi,
Sy'n ei gwisgoedd disglaer gwyn,
'N seinio mawl ir Arglwydd Iesu,
'R hwn fu farw ar y bryn.

16 Nid yw nawr yn swn y rhyfel,
Ond yn llawer mewn gwell lle,
Nid yu nawr yn gwisgo'r Cleddyf,
Fe gadd Balmwydd yn ei le
Ei Wisg yn Wen yn bur yn ddisglaer,
Heddyw y tu draw ir llen,
Rhodio gyda'i briod Iesu,
A choron Auraidd ar ei ben.

17 Clywaf swn o fewn i Seion,
Clywaf ddweud mewn ambell le
Nad oes etto neb yn addas,
I'wisgo'r fantell yn ei le,
Rhoddwn bob amheuon heibio,
Y mae'r hwn ai cododd ef,
N abl codi lluoedd etto,
O' Iengctid cymru hardd eu gwedd.

18 Nesawn gan hynny yn hyderus,
Ger bron gorsedd faingc y gras,
I weddio am i'r Arglwydd,
Ddanfon gweithwyr i'w ei faes,

A phob un a gaffo ei Alw,
    I waith y Weinidogaeth lan,
Syrthied yspryd Dafydd arnynt,
    Fel Ennynnont nefol Dan.

19 Pan yr oedd yn rhydio 'r yr afon,
    M'ron a gadael tir y byw,
Wrth ei briod fe ddywedai,
    Ymddirieda yn dy Dduw,
'Rhwn sy'n abl i dy gadw,
    Yn mhob tywydd yn mhob croes,
Tad y weddw a'r ymddifaid,
    Yw ei enw yn mhob oes.

20 Ei briod anwyl clywch ei gyngor,
    A pheidiwch wylo ar ei ol,
Ni fydd hynny ddim yn foddion,
    Yw ddychwelyd ef yn ol,
Byddwch foddlon yn mhob tywydd,
    Ddelo i'ch cwrdd o dan y ne,
Chwi gewch chwithau yn mhen ychidig,
    Fyned adre atto fe.

21 Yr oedd i chwi n briod anwyl,
    Tra fuoch ymma yn cydfyw,
Ond er hynny ymfoddlonwch,
    I drefn Ragluniaethol Duw,
Mae e hyddew uwch yr haulwen,
    Oddifewn i Byrth y nef,
Yn cydganu a'r llu Angylaidd,
    Gan fwynhau tragwyddol wledd.

22 Fe gadd Iesu iddo'n briod,
    Rhwn fu iddo'n gyfaill cu,

Gwnaeth y ffordd o'i flaenyn oleu,
Trwy ddyfnderoedd Angeu du,
Rhoddod dyst fod y Cyfammod,
Wedi ei hollol sicrhau,
A chan Waeddi Haleluia,
Fe' madawai a'r ty o glai.

23 Un Mil, Wyth Cant ag un ar hugain,
Oedd Oedran Iesu'n Prynwr gwiw:
Ar Saith ar hugain o fis Eprill,
Pan aeth Dafydd at ei Dduw,
Tri Ugain Mlwydd ag un yn rhagor,
Oedd ei gywir oedran ef,
Pan ehedodd ei Enaid adref,
At lu o Angylion hardd eu gwedd.

24 Nid er mwyn cael enw im hunan,
Rhoes y geiriau hyn ar lawr,
Ond er mwyn gwneud coffadwriaeth,
Am un a fu o Ddefnydd Mawr,
Boed yr enw i Dduw yn Unig
'Rhwn an Cofiodd cyn ein bod,
I'r un yn Dri ag heb wahaniaeth,
Byddo y Tragwyddol glod.

DIWEDD.